Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Adroddiad Arolygu ar gyfer

Plas Maesincla

Plas Maesincla
Caernarfon
LL55 1DB

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

26/09/2023

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.
Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk
Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Plas Maesincla

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Gofal Heb Nyrsio i Oedolion
Darparwr Cofrestredig	Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Gwynedd
Lleoedd cofrestredig	23
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	21 Ionawr 2020
Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?	Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a fydd o bosibl yn defnyddio'r gwasanaeth.

Crynodeb

Mae'r bobl yn ymddangos yn fodlon ar y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael yng nghartref gofal Plas Maesincla. Mae'r gweithwyr gofal yn barchus ac yn ofalgar ac maent yn diwallu anghenion gofal y bobl mewn modd urddasol ac amserol. Mae'r perthnasau yn fodlon ar y ffordd y mae'r staff yn darparu gofal a chymorth a'r ffordd y caiff y cartref ei reoli. Rhoddir cyfleoedd i'r bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau. Gall ymwelwyr ddod i weld y bobl a gall y bobl ddewis sut yr hoffent dreulio eu diwrnod. Mae'r cynlluniau personol a'r asesiadau risg yn darparu lefel dda o fanylion o ran sut i ddiwallu anghenion y bobl.

Mae'r staff yn teimlo bod y rheolwr yn eu cefnogi. Mae'r prosesau recriwtio yn barhaus ac mae'r holl wiriadau angenrheidiol yn cael eu cynnal. Mae hyfforddiant ar gael i'r staff er mwyn sicrhau eu bod yn fedrus yn eu rolau. Cynhelir cyfarfodydd trosglwyddo rhwng y staff i rannu gwybodaeth berthnasol am lesiant y bobl.

Mae'r adeilad ar ei dir ei hun a cheir ardaloedd diogel i'r bobl eistedd ynddynt ac iddynt gerdded yn ddiogel yn yr awyr agored. Mae'r ystafelloedd gwely wedi'u haddurno ag eitemau personol, ac mae'r ardaloedd cymunedol yn arddangos eitemau cofiadwy. Mae'r cartref yn lân ac yn daclus ac mae arferion da ar waith o ran mesurau atal a rheoli heintiau.

Llesiant

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae'r staff yn eu trin â pharch ac mae eu barn yn bwysig. Gwelsom aelodau o'r staff yn ymateb yn brydlon i anghenion a dewisiadau'r unigolion. Mae'r bobl yn gallu ymlacio ac yn gyfforddus yng nghwmni'r staff sy'n sgwrsio mewn modd caredig, gofalgar a pharchus. Mae'r staff yn siarad â'r bobl yn eu dewis iaith, boed yn Gymraeg neu'n Saesneg. Mae'r staff yn annog y bobl i fynegi eu hunain ac i wneud penderfyniadau fel rhan o'u trefn o ddydd i ddydd, megis dewis lluniaeth a gweithgareddau.

Caiff y bobl gymorth gan y gweithwyr gofal i fod mor iach â phosibl. Dywedodd yr ymwelwyr y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo bod eu perthnasau yn cael gofal da. Mae'r bwydlenni yn dangos bod amrywiaeth o brydau yn cael eu cynnig a bod pryd bwyd gwahanol ar gael os bydd ei angen. Cafodd hyn ei gadarnhau wrth i ni arsylwi ar y trefniadau yn ystod amser cinio. Yn ôl yr hyn a welsom, roedd y bobl yn mwynhau'r bwyd. Caiff y bobl eu hatgyfeirio at weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn briodol ac mewn modd amserol.

Gall y bobl wneud y pethau sy'n bwysig iddynt ac mae dewis o weithgareddau ar gael iddynt. Gwelsom luniau a oedd yn dangos y bobl yn mwynhau'r cyfleusterau a'r gweithgareddau sydd ar gael. Mae amrywiaeth o gemau, eitemau crefft a darnau o eitemau cofiadwy o amgylch y cartref yn gwella llesiant y bobl. Dywedodd y staff wrthym fod y bobl wedi mwynhau'r profiad o daith rheilffordd ar hyd Cymru drwy ddolen i un o'r cyfryngau cymdeithasol wedi'i chysylltu â sgrin fawr. Cafodd siop fach ei chreu i'r bobl brynu cynnyrch ymolchi, cardiau a danteithion. Dywedodd y perthnasau wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff os bydd unrhyw broblemau ganddynt, ac y byddai'r staff yn gwrando arnynt.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae mesurau ar waith i ddiogelu'r bobl rhag y risg o niwed. Caiff asesiadau risg unigol eu cynnwys mewn cynlluniau personol a chânt eu hadolygu fel sy'n ofynnol. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn gwybod pa gamau i'w cymryd os byddant yn pryderu am unigolyn/unigolion. Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu, codi a chario a meddyginiaeth.

Mae amgylchedd y cartref yn helpu'r bobl i gyflawni safon dda o lesiant. Mae'r cartref wedi'i gynllunio'n dda, ac mae gan y bobl ddewis o lolfeydd neu ystafell dawel lle gallant dreulio eu hamser. Mae'r gwelliannau a wnaed i'r décor yn yr ardaloedd cymunedol wedi gwella llesiant y bobl ymhellach.

Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael cymorth da gan staff gofalgar sy'n eu trin ag urddas. Mae'r perthnasau y gwnaethom siarad â nhw yn fodlon ar y ffordd y caiff agweddau ar y gofal a'r cymorth eu darparu ac ar y ffordd y caiff y cartref ei reoli. Dywedodd un perthynas wrthym ei fod yn fodlon ar y gofal a ddarperir am fod gan y gweithwyr gofal amser i'w dreulio gyda'r bobl a'u bod yn eu cefnogi â'u hanghenion gofal.

Gall y bobl ddewis sut i dreulio eu diwrnod, naill ai yng nghysur eu hystafell wely neu yn un o'r ardaloedd cymunedol. Roedd ffotograffau wedi'u harddangos o'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnal. Yn ôl yr hyn a welsom, roedd rhai o'r bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau, ond roedd yn well gan eraill wylio neu ymlacio. Gwelsom weithwyr gofal yn rhyngweithio â'r bobl mewn modd cyfeillgar gan drafod digwyddiadau'r gorffennol a'r presennol, a chan eu hannog i gyd-ganu a dawnsio. Mae'r staff yn parchu'r ffaith bod yn well gan rai o'r bobl aros yn eu hystafelloedd gwely neu yn y lolfeydd tawel llai o faint. Dywedodd y staff wrthym fod y bobl wedi mwynhau gwneud eitemau crefft ar gyfer Calan Gaeaf ac roedd fideos a lluniau o'r gweithgareddau wedi cael eu gosod ar dudalen y gwasanaeth ar y cyfryngau cymdeithasol i berthnasau a ffrindiau eu gweld. Mae'r cofnodion dyddiol unigol yn dangos pa weithgareddau sydd wedi cael eu cynnal, ond nid ydynt yn cael eu cwblhau bob dydd.

Mae'r bobl yn aros mor iach â phosibl diolch i'r gofal a ddarperir, atgyfeiriadau amserol at weithwyr iechyd proffesiynol, a threfniadau effeithiol ar gyfer rhoi meddyginiaeth. Mae'r bobl yn cael y feddyginiaeth sydd ei hangen arnynt yn ddiogel. Mae anghenion deietegol y bobl yn cael eu hystyried, ac mae prydau iach a maethlon yn sicrhau bod y bobl yn aros yn iach. Gwelsom luniaeth poeth ac oer yn cael ei gynnig. Caiff prif bryd gwahanol ei weini os na fydd y bobl yn hoffi'r pryd sydd wedi'i baratoi.

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth sy'n diwallu eu hanghenion unigol. Ymgynghorir â'r perthnasau a chânt eu cynnwys wrth ddatblygu'r cynlluniau personol, sy'n cynnwys canlyniadau personol mewn perthynas ag iechyd a llesiant y bobl. Caiff y cynlluniau personol a'r asesiadau risg eu hadolygu ac maent yn adlewyrchu sut yr hoffai'r bobl gael cymorth. Mae cofnodion a siartiau dyddiol yn dangos bod y bobl yn derbyn y gofal sydd ei angen arnynt pan fo'i angen.

Mae prosesau ar waith i ddiogelu'r bobl. Mae asesiadau risg unigol ar waith ac mae'r staff yn ymwybodol o ba mor bwysig yw gwneud atgyfeiriadau perthnasol at yr awdurdod lleol pe bai unrhyw bryderon ganddynt am y bobl y maent yn gweithio gyda nhw. Mae'r staff yn cael yr hyfforddiant diogelu diweddaraf. Mae'n ofynnol i'r staff sy'n rhoi meddyginiaeth basio prawf cymhwysedd cyn gallu rhoi meddyginiaeth.

Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn gartrefol ac yn gynnes. Mae'r ystafelloedd gwely a'r ardaloedd cymunedol wedi'u haddurno a'u dodrefnu i safon dda. Mae'r bobl wedi'u hamgylchynu â'u heitemau personol a'u heiddo. Er mwyn helpu'r bobl i ddod o hyd i'w hystafell wely, mae blychau atgofion, sy'n arddangos eitemau personol bach o ddiddordeb a lluniau, wedi'u gosod y tu allan i ystafell wely pob person. Mae cymhorthion ac addasiadau ar gael i helpu'r bobl i allu cyrraedd pob rhan o'r cartref. Gellir cyrraedd y llawr cyntaf gan ddefnyddio'r grisiau neu'r lifft teithwyr. Mae polisi drysau clo ar waith i ddiogelu'r bobl rhag y risg o niwed os byddant yn ceisio gadael y safle heb oruchwyliaeth.

Mae'r darparwr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cefnogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae cynllun y cartref, ynghyd â'r cymhorthion a'r addasiadau a ddarperir, yn helpu i hyrwyddo annibyniaeth. Mae'r ardaloedd awyr agored yn ddiogel gan alluogi'r bobl i eistedd yn yr awyr agored neu gerdded o amgylch ardal y patio.

Mae mesurau rheoli heintiau ar waith o hyd er mwyn sicrhau bod y bobl yn ddiogel rhag heintiau. Gofynnir i ymwelwyr â'r cartref ddilyn canllawiau cyfredol y cartref mewn perthynas â rheoli heintiau.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau ar gyfer goruchwylio'r gwasanaeth ac mae prosesau ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld yn rheolaidd ac yn ystyried safbwyntiau'r preswylwyr, lefelau staffio, yr amgylchedd, cwynion, iechyd a diogelwch, a chydymffurfiaeth. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym fod y rheolwr yn unigolyn y mae'n hawdd mynd ato a'i fod yn rhoi cymorth personol a phroffesiynol.

Caiff y bobl eu cefnogi gan staff sy'n addas ac sy'n meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau i ddiwallu eu hanghenion. Mae cofnodion yn dangos bod y gwiriadau gofynnol yn cael eu cynnal cyn i'r staff ddechrau gweithio. Mae gan y darparwr broses dethol a fetio ar waith, gan gynnwys proses ar gyfer cael geirdaon. Mae'r staff a gyflogir wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r dogfennau a ddarparwyd yn dangos bod y staff wedi ymgymryd â hyfforddiant mewn cymorth cyntaf, codi a chario a diogelu. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn edrych ymlaen at fynd i'r hyfforddiant ar ddementia. Mae'r matrics hyfforddiant yn dangos nad yw pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant arbenigol ar ofal dementia. Dywedodd y rheolwr wrthym mai diffyg argaeledd hyfforddiant perthnasol oedd yn gyfrifol am hyn, ac y byddai'n parhau i ddarparu hyfforddiant i'r staff. Mae rotas staff yn dangos bod digon o staff ar ddyletswydd i ddiwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y cartref. Caiff cyfarfodydd staff eu trefnu i rannu materion gweithredol megis hyfforddiant, iechyd a diogelwch, ac i ddarparu cyfleoedd i'r staff rannu syniadau neu unrhyw bryderon am y gwasanaeth a ddarperir.

Mae gan y gwasanaeth ddatganiad o ddiben, sy'n disgrifio'n glir at bwy y mae'r gwasanaeth wedi'i anelu a sut y caiff gofal ei ddarparu. Mae'r bobl yn cael gwybodaeth sy'n disgrifio'r gwasanaeth a sut i wneud cwyn.

Mae trefniadau iechyd a diogelwch y cartref yn cael eu rheoli'n dda. Mae'r darparwr yn gweithredu'n unol â sylwadau gan asiantaethau allanol. Mae'r cofnodion yn dangos bod cyfleustodau, cyfarpar a nodweddion diogelwch tân yn cael eu gwirio a'u gwasanaethu'n rheolaidd. Mae'r cartref wedi cael y sgôr hylendid bwyd uchaf, sef 5 seren, gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Mae gan bob preswylydd gynllun personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng, sy'n benodol i'w anghenion cymorth unigol.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio	
Statws	**Ystyr pob un**
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

Dyddiad Cyhoeddi 28/11/2023